



Asesiad Effaith Economaidd, Cymdeithasol, Iechyd a Lles

crynodeb



1. Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd y cwmni 'Public and Corporate Economic Consultants' (PACEC) eu comisiynu yn 2015 i gynnal asesiad effaith economaidd, cymdeithasol, iechyd a lles yn seiliedig ar weithgareddau Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn ystod ei bum mlynedd gyntaf o fodolaeth. Cynhyrchwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlygu negeseuon cadarnhaol sy'n berthnasol i'r sefydliad ac i randdeiliaid a sefydliadau sydd â diddordeb yn effaith ehangach tai ar yr economi leol, iechyd a lles a ffactorau cymdeithasol.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif ddarganfyddiadau'r adroddiad llawn.
- 1.3 Lle bo'n briodol, darperir cyfeirnod y dudalen berthnasol neu rif yr adran o fewn yr adroddiad PACEC llawn. Gallai hyn gynorthwyo'r aelodau hynny sy'n dymuno edrych ymhellach ar ddarganfyddiadau'r adroddiad llawn.

2. Cwmpas y gwaith

- 2.1 O fewn cwmpas yr asesiad bu i PACEC adolygu'r gweithgareddau canlynol a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2010 a Thachwedd 2015;
 - Gwelliannau SATC
 - Gwelliannau eraill (e.e. addasiadau anabl)
 - Prentisiaethau a chynllun hyfforddi
 - Gweithgareddau cyswllt cymunedol
 - Cronfa Buddsoddi Cymunedol
 - Gweithio mewn Partneriaeth
 - Wardeiniaid cymunedol a thai cymunedol
 - Cynhwysiant Digidol
 - Mentrau cymunedol
- 2.2 Amcan y gwaith oedd dangos tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng gweithgareddau buddsoddi CCG (SATC yn benodol), ei gysylltiad ehangach yn y gymuned a buddsoddiad cymunedol, ac effaith y gweithgareddau hyn yn ystod y cyfnod . Yna, cymhwyso gwerthoedd economaidd, cymdeithasol, iechyd a lles ac amcangyfrif y dychweliad cymdeithasol ar ein buddsoddiad.
- 2.3 Gellir canfod manylion y fethodoleg hon yn Adran 1, tudalen 8 o'r adroddiad llawn.

3. Darganfyddiadau allweddol

- 3.1 Caiff y rhain eu cyflwyno ar wahân o dan feysydd effaith Economaidd, Iechyd a Lles. Caiff y canlyniadau eu cyflwyno gyntaf ac yna'r deilliannau ac effaith.

3.2 Effaith Economaidd

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	95% o holl stoc tai wedi'u huwchraddio i SATC	Adran 2.1, tudalen 10
2.	O ran LSVT yng Nghymru, roedd CCG yn y trydydd safle o ran eiddo sy'n cydymffurfio gyda SATC ac yn perfformio yn yr ail safle o ran canran twf.	Adran 3.3, tudalen 22
3.	Cyfrannu £46.8m o Werth Ychwanegol Gros yn y cyfnod	Adran 4.5, tudalen 38
4.	Wedi cefnogi 667 swydd gyfatebol i swyddi llawn amser yn y maes adeiladu yn ystod y cyfnod	Adran 4.5, tudalen 38
5.	494 o unigolion wedi eu cyflogi ar raglen fuddsoddi SATC pan oedd ar ei anterth (Mai 2012), 257 o unigolion wedi'u cyflogi ym mis Mawrth 2015, -96% wedi'u llenwi gan bobl o ardal Gogledd Cymru, 66% o ardal Gwynedd.	Adran 4.8.1, tudalen 41
6.	Roedd y Lluosydd Lleol Cymru a gynhyrchwyd gan fuddsoddiad SATC CCG yn amrywio o £1.62 i £2. (Nodyn: mae hyn yn mesur pob £1 sy'n cael ei wario ar gyfundeb, faint gafodd ei fuddsoddi yn economi Cymru)	Adran 4.8.1 1, tudalen 41&42.
7.	Cyfanswm gwerth cymdeithasol (h.y. personol a budd i'r cartref) a gafwyd oherwydd gweithgarwch CCG a chanlyniadau economaidd cysylltiedig oedd £13,040,420 y flwyddyn, sy'n cyfateb i werth cymdeithasol ar gyfartaledd o £2,301 y tenant, fesul blwyddyn. Y categorïau lle nodwyd y canlyniad gwerth cymdeithasol uchaf oedd "Gallu talu am dŷ" (83.9%, £1930.54) a "Gallu i gynilo yn gyson" (11.6%, £266.92)	Adran 4.8.1, tudalen 42

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	Mae rhaglen wella SATC CCG wedi cyfrannu llawer at wella amddifadedd tai sylweddol yng Ngwynedd	Adran 1, tudalen 2; Adran 3.1, tudalen 17; Adran 3.3 ar dudalennau 21&22
2.	Roedd 82% a gafodd eu harolygu yn credu bod eu tai yn gynhesach ac yn haws i'w cynhesu o ganlyniad i welliannau CCG.	Adran 4.7, tudalen 41
3.	Roedd 32% o denantiaid a gafodd eu harolygu yn credu bod eu cartref yn fwy fforddiadwy yn gyffredinol o ganlyniad i welliannau	Adran 4.7, tudalen 41
4.	Bu i 20% o gartrefi ddatgan bod posib iddynt arbed mwy o ganlyniad i welliannau CCG a'r arbedion cost cysylltiedig	Adran 4.7, tudalen 41

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG)

5.	Roedd 93% o denantiaid yn teimlo bod safon eu cartref naill ai yn "rhagorol", "da" neu "gweddol"	Adran 3.4, tudalen 25
----	--	--------------------------

3.3 Effaith Iechyd a Lles

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	Roedd tystiolaeth glir o effaith iechyd cadarnhaol o ganlyniad i waith gwella CCG	Adran 1.2, tudalen 5
2.	Cyfanswm gwerth cymdeithasol o ran effaith ar iechyd o ganlyniad i fuddsoddiad CCG oedd £44,645,813 y flwyddyn, sy'n cyfateb i £7,878 y tenant ar gyfartaledd pob blwyddyn. Y categorïau canlyniad gwerth cymdeithasol a nodwyd oedd "Iechyd da (51%, £4017.78) a "Lefelau uchel o hyder (oedolyn)" (49%, £3860.22)	Adran 1.2, tudalen 5

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	Mae iechyd a lles tenantiaid CCG yn amlwg wedi gwella	Adran 1.2, tudalen 5
2.	Roedd 55% o'r tenantiaid a gafodd eu harolygu yn cytuno yn gryf neu yn cytuno bod eu hiechyd wedi gwella yn dilyn gwelliannau a wnaed gan CCG	Adran 5.3.2, tudalen 47
3.	Ymhlith y tenantiaid hynny gyda phlant a gafodd eu harolygu, roedd 59% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod iechyd eu plant wedi gwella yn dilyn y gwelliannau SATC.	Adran 5.3.2, tudalen 49
4.	Roedd 45% o denantiaid a gafodd eu harolygu yn credu bod gwelliannau CCG wedi eu rhoi mewn gwell sefyllfa i ddelio gyda'u salwch neu anabled.	Adran 1.2, tudalen 5
5.	Roedd 45% o denantiaid a gafodd eu harolygu yn credu bod addasiadau gan CCG wedi eu galluogi i aros yn eu cartref yn hirach yn hytrach na chael eu trosglwyddo i ofal eilradd	Adran 1.2, tudalen 5
6.	Roedd 46% o denantiaid a gafodd eu harolygu yn nodi bod ganddynt lefelau uwch o hyder ac annibyniaeth ers y gwelliannau a wnaed gan CCG, sy'n arwyddocaol o ystyried bod o dan un pumed o denantiaid CCG dros 65 oed.	Adran 1.2, tudalen 5
7.	Roedd 82% o denantiaid a gafodd eu harolygu o'r farn bod eu cegin yn eu galluogi i goginio ar gyfer eu hunain yn dilyn gwaith gwella CCG	Adran 5.3.2, tudalen 47.

3.3 Effaith cymdeithasol a chymunedol

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	Ar gyfer pob £1 a fuddsoddiwyd yn y gwelliannau mae CCG wedi sicrhau Dychweliad Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o £3.69 o ganlyniad i gyfuniad o ganlyniadau economaidd, iechyd a lles, a chymunedol.	Adran 7, tudalen 65
2.	Roedd Uwch Randeiliaid yn Heddlu Gogledd Cymru yn unfrydol gadarnhaol am rôl CCG ac ymdrechion yn y blynyddoedd diwethaf i leihau trosedd. Bu i un rhanddeiliad ddisgrifio CCG fel "sefydliad cynhyrchiol, rhagweithiol" ac "effeithlon".	Adran 6.3.1, tudalen 59
3.	Bu i Randeiliad yn y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ategu hyn gan ddisgrifio CCG fel "rhagweithiol" yn ei barodrwydd i ymyrryd yn gynnar cyn i faterion fynd yn fwy difrifol.	Adran 6.3.1, tudalen 59
4.	Mae uwch swyddogion yr heddlu yn credu fod CCG wedi chwarae "rhan arwyddocaol" yng ngostwng trosedd lefel-isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arbennig (a hyd yn oed troseddau mwy difrifol). Yn ychwanegol at y Tîm Ymyrryd yn Gynnar - menter partneriaeth sydd â ffocws ataliol o ran lleihau trosedd drwy ymyrryd yn sydyn gyda "thenantiaid sy'n peri problemau" a throreddwyr eraill sy'n troseddu dro ar ôl tro, mae Heddlu Gogledd Cymru yn canmol CCG am "ymyrryd ar unwaith" (heb annog) yn ystod Ymgyrch 'Operation Measure' a chynorthwyo swyddogion Lefel 2 gyda gwaith erlyn. Mae'r cysyllt adborth cadarnhaol rhwng Wardeiniaid Cymunedol CCG a'r heddlu hefyd yn cael ei gydnabod.	Adran 6.3.1, tudalen 59
5.	Mae rhanddeiliaid heddlu yn tynnu sylw at ddefnydd effeithiol a llwyddiannus CCG o'u pwerau dros breswylwyr sy'n peri problemau yn y gymuned. Mae'r ymyriadau hyn wedi arwain at ostyngiad yn y "galw dro ar ôl tro" am wasanaethau'r heddlu (sydd yn awr yn cael eu disgrifio fel "agos at ddim")	Adran 6.3.1, tudalen 59
6.	Mae Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod CCG hefyd yn flaengar gyda'i gyngor cyfreithiol a defnydd effeithiol o'i bwerau i wella diogelwch cymunedol	Adran 6.3.1, tudalen 59&60
7.	Cyfanswm gwerth cymdeithasol o ganlyniadau amgylcheddol lleol yn deillio o weithgaredd CCG oedd £29,870,281 y flwyddyn, sy'n cyfateb i £5,270 y tenant ar gyfartaledd y flwyddyn. Dyma'r tri chanlyniad gwerth cymdeithasol uchaf a nodwyd "Ddim yn poeni am drosedd" (34% £1791.18), "Dim problem gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol" (18% £948.60), a "Dim problem gyda fandaliaeth/graffiti" (14% £737.80)	Adran 6.4, tudalen 64
8.	Ers i CCG ddod i fodolaeth a hyd at fis Mawrth 2015 mae 180 o brosiectau cymunedol wedi cael budd o grantiau a oedd yn dod i £976,000 drwy Gronfa Buddsoddi	Adran 2.3.1, tudalen 14

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG)

	Cymunedol CCG gyda buddsoddiad ychwanegol a oedd yn dod i £5.6m wedi ei ddiogelu drwy arian cydgyfeirio.	
9.	Wrth gymhwyso "Budd i'r Gymuned; Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru" Llywodraeth Cymru i'w gcontractau mae CCG wedi darparu amrediad o fuddion cymunedol ac amgylcheddol, gan gynnwys cyfanswm o £30mil o gyfraniadau o fath arall, a mwy na £25.4m mewn arbedion tirlenwi.	Adran 4.6, tudalen 40
10.	Mae CCG yn defnyddio 5 warden cymunedol sy'n darparu cefnogaeth ar safle ac ar-alw i'r gymuned. Maent yn cael effaith sylweddol ar leihau trosedd gan weithio mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru mewn mentrau cymunedol gan ymyrryd yn sydyn gyda "thenantiaid sy'n peri problemau" a throseddwyr eraill sy'n troseddu dro ar ôl tro.	Adran 6.3.1, tudalen 59

	Canlyniadau	Cyfeirnod yr adroddiad
1.	Un mewn pump (20%) o denantiaid a gafodd eu harolygu yn credu bod rhai mathau o droseddau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth, sbwriel wedi gostwng ers i fuddsoddiad CCG gychwyn 5 mlynedd yn ôl.	Adran 6.4, tudalen 64
2.	Roedd 56% o denantiaid a gafodd eu harolygu yn credu bod eu cymdogaeth yn fwy diogel o ganlyniad	Adran 6.3, tudalen 57
3.	Bu i 21% o denantiaid CCG a gafodd eu harolygu adrodd bod lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal hwy wedi lleihau yn dilyn gwelliannau CCG.	Adran 6.3.1, tudalen 58
4.	Bu i 23% o denantiaid CCG a gafodd eu harolygu adrodd bod lefelau fandaliaeth yn eu hardal wedi gostwng yn dilyn gwelliannau.	Adran 6.3.1, tudalen 58
5.	57% o denantiaid yn teimlo bod mannau agored wedi gwella o ganlyniad i welliannau a wnaed gan CCG	Adran 6.3.3, tudalen 61
6.	Roedd traean o denantiaid (31%) yn teimlo bod ganddynt "llawer" mwy o falchder neu "ychydig" mwy o falchder yn eu hardal o ganlyniad i welliannau a waned gan CCG.	Adran 6.3.4, tudalen 63.
7.	Cyfrannodd cefnogaeth ehangach CCG drwy Gronfa Buddsoddi Cymunedol i'r gymuned leol drwy gefnogi sgiliau lleol ar ffurf hyfforddiant achrededig a chymwysterau wedi'u targedu at rheiny yn NEET ("Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant")	Adran 4.6, tudalen 40&62
8.	Roedd prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl leol yn rhan annatod o gcontractau CCG gyda chymhwyso "Budd i'r Gymuned; Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru" Llywodraeth Cymru, cafodd metrau fel "Adeiladu Profiad" ei gyllido drwy gyfraniadau contractwyr a chyflenwyr SATC. Bu i "Adeiladu Profiad" greu cyfleoedd ar gyfer pedwar person ifanc i gymryd rhan mewn gwersi dysgu ffurfiol tra hefyd yn cael 5 wythnos o sgiliau gwaith	Adran 2.3, tudalen 11&12

	a phrofiad drwy weithio gyda staff CCG a chontractwyr ar safle. Bu iddynt hefyd dderbyn bwrsariaeth am ddatblygiad addysgiadol neu broffesiynol pellach. Cychwynnodd y cynllun yn 2014 ac mae wedi'i raglennu i redeg am 3 blynedd arall.	
9.	Gall cydweithio gyda nifer o asiantaethau greu effaith ehangach.	

4 Casgliadau

- 4.1 Mae'r adroddiad yn amlygu'r effaith gadarnhaol y mae buddsoddiad CCG wedi ei gael er les ei gwsmeriaid a'r economi leol - mae CCG yn awyddus i rannu'r neges yma gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a chyfoedion yn y sector tai a thu hwnt.
- 4.2 Bydd darganfyddiadau'r adroddiad yn cael eu defnyddio i edrych ymhellach ar gyfleon i weithio mewn partneriaeth lle dylai targed gwaith cymdeithas tai effeithio ar ganlyniadau partneriaid eraill, er enghraifft Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub.
- 4.3 Mae ffilm 12 munud yn amlygu effaith gadarnhaol buddsoddiad CCG ar y gymuned ehangach hefyd wedi ei gynhyrchu i gyd fynd a'r adroddiad. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

Os oes gennych ddiddordeb gwybod mwy am unrhyw agwedd benodol neu ganfyddiadau'r gwaith yma cysylltwch gyda Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG.